CYHOEDDIAD

# Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: adroddiad cynnydd – Gorffennaf 2023

Adroddiad Cynnydd a gyflwynwyd i'r Prif Weinidog, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, ac Arweinydd Plaid Cymru.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 28 Gorffennaf 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 28 Gorffennaf 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


**Cefndir**

**Cynnydd**

**Ymgysylltu**

**Adrodd**



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cefndir

Sefydlwyd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru gan Lywodraeth Cymru gyda dau amcan eang:

1. Ystyried a datblygu opsiynau i ddiwygio'n sylfaenol strwythurau cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig, y mae Cymru yn parhau'n rhan annatod ohoni.
2. Ystyried a datblygu'r holl brif opsiynau blaengar i gryfhau democratiaeth Cymru a sicrhau gwelliannau i bobl Cymru.

Mae aelodaeth y Comisiwn yn cynnwys:

- Cyd-gadeirydd: Laura McAllister
- Cyd-gadeirydd: Rowan Williams
- Anwen Elias
- Miguela Gonzalez
- Michael Marmot
- Lauren McEvatt
- Albert Owen
- Philip Rycroft
- Shavanah Taj
- Kirsty Williams
- Leanne Wood

Cefnogir y Comisiwn gan Banel o Arbenigwyr, sy'n rhoi cyngor ar amrywiaeth o arbenigeddau:

- Cadeirydd: Gareth Williams, cyn-Gynghorydd Arbennig i Lywodraeth Cymru ar y Trefniadau Pontio Ewropeaidd
- Jess Blair, Cyfarwyddwr Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru
- Yr Athro Emyr Lewis, Pennaeth Adran y Gyfraith a Throseddeg ym

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mhrifysgol Aberystwyth

- Auriol Miller, Cyfarwyddwr y Sefydliad Materion Cymreig
- Akash Paun, Pennaeth rhaglen ddatganoli Institute for Government
- Dr Hugh Rawlings, cyn-Gyfarwyddwr Materion Cyfansoddiadol yn Llywodraeth Cymru
- Yr Athro Mairi Spowage, Athro Ymarfer a Chyfarwyddwr Sefydliad Fraser of Allander
- Yr Athro Diana Stirbu, Athro Polisi a Llywodraethu ym Mhrifysgol Met Llundain

## Cynnydd

Ers yr adroddiad cynnydd blaenorol, mae'r Comisiwn wedi cynnal dwy sesiwn dystiolaeth a gweithdy ar ddemocratiaeth gyfranogol a chydgynghorol. Cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth bellach gan Is-grŵp y Comisiwn ar Gyfiawnder. Yn ystod y cyfarfodydd tystiolaeth, clywodd y Comisiwn gan:

- Mick Antoniw AS, Cwnsler Cyffredinol Cymru
- Jeff Cuthbert, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent a Chadeirydd Plismona yng Nghymru
- Y Gwir Anrh TC Davies AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru
- Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru
- Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
- Chris Llewelyn, Prif Weithredwr CLILC
- Alun Michael, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
- Y Cyng Llinos Medi, Arweinydd Grŵp Plaid Cymru CLILC ac Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn
- Y Cyng Mark Pritchard, Arweinydd Grŵp Annibynnol CLILC ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Wrecsam

Clywodd yr Is-grŵp ar Gyfiawnder gan:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Jonathan Davies, Pennaeth Cymdeithas y Cyfreithwyr yng Nghymru
- Mark Davies, Cadeirydd Bwrdd Cenedlaethol Cymdeithas y Cyfreithwyr yng Nghymru
- Joshua Hurst, Rheolwr Materion Cyhoeddus a Pholisi Cymru
- Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys
- David McNeill, Cyfarwyddwr Materion Cyhoeddus ac Ymgyrchoedd Cymdeithas y Cyfreithwyr

Dyma’r rhai a gyfrannodd at y gweithdy ar ddemocratiaeth gyfranogol a chydgynghorol:

- Yr Athro Oliver Escobar, Prifysgol Caeredin
- Auriol Miller, Y Sefydliad Materion Cymreig
- Dr Christoph Niessen, Prifysgol Leiden
- Yr Athro Diana Stirbu, Prifysgol Met Llundain
- Dr Matt Wall, Prifysgol Abertawe
- Swyddog Llywodraeth Cymru

Daeth tystiolaeth ysgrifenedig i law Is-grŵp y Comisiwn ar Gyflogaeth gan Sefydliad y Cyfarwyddwyr, Make UK a’r Ffederasiwn Busnesau Bach.

# Ymgysylltu

Mae rhaglen o ddigwyddiadau ymgysylltu’r Comisiwn ar gyfer dinasyddion wedi parhau gan gynnal cyfarfodydd yn y Fenni, Aberystwyth, Caernarfon, Caerdydd, y Drenewydd, Doc Penfro, Trehafod a Wrecsam.

Cysylltodd yr Ysgrifenyddiaeth ag aelodau CLILC ar draws y 22 o awdurdodau lleol i godi ymwybyddiaeth ynghylch uchelgeisiau’r Comisiwn o ran ymgysylltu, a gwahodd awdurdodau lleol i argymell cymunedau ar gyfer ymgysylltu â hwy. Mae sioe deithiol yr haf wedi dechrau gan ymweld ag Eisteddfod yr Urdd yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ogystal â lleoliadau canolog yn Hwlffordd a Choed-duon. Bydd y sioe deithiol yn cael ei chynnal tan fis Medi. Mae comisiynwyr wedi cymryd rhan mewn digwyddiad yng Ngŵyl y Gelli, cynhadledd flynyddol Sefydliad y Merched, cynhadledd flynyddol Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD) a sesiwn Holi ac Ateb ddigidol yn fyw ar Facebook.

Yn ystod digwyddiad trawsbleidiol yn San Steffan, cyfarfu'r Comisiwn ag aelodau Tŷ'r Arglwydd a Thŷ'r Cyffredin ac ymddangosodd y cyd-gadeiryddion gerbron y Pwyllgor Materion Cymreig. Yn ystod digwyddiad galw heibio yn Y Cwrt, cyfarfu'r cyd-gadeiryddion ag Aelodau o'r Senedd o bob plaid gan drafod gwaith y Comisiwn a sut y gall Aelodau o'r Senedd annog etholwyr i ddweud eu dweud.

Ym mis Ebrill, lansiwyd Llwyfan Ymgysylltu'r Comisiwn **defnyddiadylais.cymru** ac mae wedi'i ddatblygu yn sgil adborth a gafwyd o'r gwaith ymgysylltu. Gofynnwyd am wybodaeth syml a chryno i egluro'n fwy cyffredinol y status quo, yr opsiynau a'r drefn lywodraethu yng Nghymru. Cyhoeddwyd arolwg newydd ar y wefan yn gofyn cwestiynau i ddinasyddion ynghylch y tri opsiwn. Ers ei lansio, mae dros 5200 o bobl wedi edrych ar y wefan Saesneg a 383 wedi ymateb i'r arolwg. Mae 503 o bobl wedi edrych ar y wefan Gymraeg a 4 wedi ymateb i'r arolwg.

# Adrodd

Mae disgwyl i'r Comisiwn gyhoeddi ei adroddiad terfynol, gan gynnwys argymhellion, erbyn diwedd 2023.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.